

Simon Pirotte  
Y Pennaeth  
Coleg Penybont  
Heol y Bontfaen  
Pen-y-bont ar Ogwr  
CF31 3DF

Awst 2014

Annwyl Mr Pirotte

## **Adroddiad Estyn ar Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ar gyfer Coleg Penybont**

Yn dilyn yr ymweliad â'ch sefydliad ar 25 i 27 Mehefin 2014 ynghylch yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad, mae'r llythyr hwn yn adroddiad blynyddol sydd wedi'i seilio ar ddeilliannau'r ymweliad hwnnw. Cyhoeddir y llythyr ar wefan Estyn.

Bu Mark Evans AEM a Bernard Hayward AEM yn arfarnu perfformiad presennol y sefydliad ac yn adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion sy'n deillio o arolygiadau blaenorol. Cynhaliont drafodaethau gyda'r pennaeth ac uwch reolwyr, tiwtoriaid, dysgwyr ac aelodau o'r corff llywodraethol. Buont yn craffu ar ddogfennau, gan gynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r argymhellion arolygu blaenorol. Hefyd, buont yn ystyried ansawdd yr addysgu a'r dysgu trwy deithiau cerdded i fwrw golwg ar ddysgu a chraffu ar broses arsylwi'r darparwr.

Ar ddiwedd yr ymweliad, adroddodd yr arolygwyr eu canfyddiadau i'r pennaeth ac i aelodau eraill yr uwch dîm arwain.

### **Canlyniad yr ymweliad gan yr arolygwyr cyswllt**

Ers yr arolygiad diwethaf yn Ebrill 2009, mae'r coleg wedi gweithio'n dda i fynd i'r afael â'r argymhellion a adawyd gan y tîm arolygu yn ystod cyfnod o newid mawr.

#### **1 Deilliannau a safonau**

Mae'r coleg yn ymrestru dysgwyr o ardal sy'n cynnwys llawer o wardiau difreintiedig ac mae tua hanner ei ddysgwyr yn byw mewn ardaloedd gyda mynegai difreintedd uchel. Ar draws y coleg, mae 75% o ymrestriadau yn rhai ar gyrsiau hir. Yn y cyfnod o 2011 i 2013, mae'r cyfraddau cwblhau wedi gwella ychydig ond maent yn parhau islaw cyfartaledd y sector. Mae cyfraddau cyrhaeddiad a llwyddiant wedi gwella ychydig hefyd ond maent yn parhau islaw cyfartaledd y sector. Mae mwyafrif y

meysydd dysgu ar draws y coleg yn perfformio islaw cymaryddion cenedlaethol ar gyfer y sector.

Ar hyn o bryd, mae gan y coleg ffocws cryf ar weithio i godi perfformiad ym mhob maes dysgu fel eu bod yn cyd-fynd â chymaryddion cenedlaethol. Mae data heb ei gyhoeddi yn dangos bod y coleg yn gweithredu yn unol â'i tharged i wella cyfraddau llwyddiant dysgwyr ar gyfer y cyfnod o 2013 i 2014.

Mae cyfraddau llwyddiant dysgwyr ar gyrsiau byr yn dda, gyda llawer yn cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus.

## **2 Medrau Hanfodol**

Mae'r coleg yn sgrinio'r rhan fwyaf o ddysgwyr i nodi unrhyw anghenion llythrennedd neu rifedd cyn iddynt ddechrau eu cyrsiau. Gan amlaf, mae hyn yn digwydd cyn i'r dysgwyr gyrraedd y coleg ar gyfer y cyfnod sefydlu. Mae hyn yn galluogi athrawon a staff cymorth i gynllunio'r adnoddau a'r trefniadau eraill sydd i'w rhoi ar waith erbyn dechrau cyrsiau'r dysgwyr. Mae ar tua hanner y dysgwyr sy'n cael profion angen cymorth i wella'u medrau sylfaenol.

Mae dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth. Mae gan y coleg berthynas dda ag asiantaethau arbenigol, ysgolion arbennig a rhieni. Mae hyn yn galluogi iddo roi adnoddau ychwanegol angenrheidiol ar waith er mwyn defnyddio amrywiaeth fawr o staff arbenigol i gefnogi dysgwyr.

Mae cyflwyno Sgiliau Hanfodol Cymru yn cael ei gyd-destunoli a'i ymgorffori yng nghwrs y dysgwr i raddau helaeth. Mae'r coleg yn defnyddio cynllun marcio cyffredin ar gyfer llythrennedd a ddatblygwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae anghysondebau yn y ffordd y mae staff ar draws y coleg yn ei ddefnyddio.

Mae'r strwythur cyfadrannau newydd wedi rhoi cyfrifoldeb am safonau cymorth dysgwyr, cymorth medrau sylfaenol a Sgiliau Hanfodol Cymru i'r Deoniaid Cyfadrannau, a benodwyd yn ddiweddar. Mae gwella'r gwaith o gyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, a chyrhaeddiad ynddynt, yn flaenoriaeth uchel i'r coleg ac mae'r Deoniaid wedi darparu adnoddau i gefnogi eu cynlluniau gwella.

## **3 Addysgu ac asesu**

Mae nodi a rhannu arfer addysgu ac asesu da wedi bod yn gwella ar draws y coleg. Mae dull strategol a chdir o wella ansawdd yr addysgu a'r asesu. Mae deoniaid, rheolwyr meysydd y cwricwlwm ac arweinwyr adran yn cael eu cefnogi a'u herio gan y pennaeth ac uwch reolwyr i wella addysgu a dysgu ymhellach. Mae datblygiadau mewn arfer addysgu yn cynnwys y strategaeth 'mynnwch ysbrydoliaeth' sy'n cynnwys athrawon mewn sesiynau 'sut i' byr, ymarferol. Mae gweithgareddau hefyd yn cynnwys cyfleoedd i staff rannu arfer arloesol yn ymwneud â gweithgareddau addysgu a dysgu sydd â mwy o ffocws ar y dysgwr.

I ategu'r strategaethau hyn, mae gan y coleg aelodau staff allweddol â rolau diffiniedig a luniwyd i gynorthwyo staff addysgu i wella'u harfer. Mae'r coleg yn defnyddio proses ddiwygiedig, wedi'i diweddarau, i ymgymryd â'i arsylwadau addysgu.

Caiff barnau eu safoni a, lle bo'r angen, rhoddir cymorth priodol ar waith ynghyd â chynllun gweithredu sy'n cael ei fonitro fel mater o drefn.

#### **4 Y Cwricwlwm**

Mae'r coleg yn cyflwyno ystod gynhwysfawr o gyrsiau sy'n bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr ar draws yr ardal leol ac yn ehangach. Mae'n defnyddio amrywiaeth briodol o wybodaeth am y farchnad lafur i ddatblygu darpariaeth newydd mewn amrywiaeth eang o bynciau. Hefyd, mae'r coleg yn cynnig cyrsiau llwybrau at addysgu uwch yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu. Yn ddiweddar, mae wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r cwricwlwm sydd wedi arwain at gynnig darpariaeth fwy priodol i'w ddysgwyr. O ganlyniad i ddefnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur a data ar berfformiad cyrsiau yn fwy effeithiol, nid yw'r coleg yn cynnig nifer o gyrsiau Lefel 3 mwyach ac mae bellach yn cyflwyno mwy o gyrsiau Lefel 1 a Lefel 2 i ateb y galw ar lefel is.

Mae'r coleg wedi diwygio'i systemau cymorth ar gyfer dysgwyr sydd bellach yn elwa o well cymorth ar gyfer dysgu a lles personol. Mae'r coleg yn gweithio'n agos gydag ysgolion uwchradd lleol i gyflwyno ystod briodol o gyrsiau galwedigaethol i ddisgyblion ysgol. Gwnaed datblygiadau pellach i'r cwricwlwm i wneud yn siŵr bod y coleg yn barod ar gyfer cyflwyno Rhaglenni Meysydd Dysgu. Mae'r coleg yn parhau i gynnal perthnasoedd gwaith da gydag amrywiaeth eang o gyflogwyr. Mae'r perthnasoedd hyn yn cynorthwyo'r coleg i gael adnoddau arbenigol a sicrhau cyfleoedd am leoliadau gwaith i'w ddysgwyr.

#### **5 Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol wedi datblygu gweledigaeth a chyfeiriad strategol clir i'r coleg ac wedi mynd ati i greu diwylliant ac ethos nodedig. Erbyn hyn, mae rheolwyr a staff yn gweithio fel tîm mwy cydlynus i gyflawni nodau allweddol y coleg ac mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn cydweithio'n dda i gefnogi'r rhain.

Mae'r pennaeth wedi cyfleu'r cyfeiriad strategol ar gyfer y coleg mewn cyfnod o her ariannol arwyddocaol. Mae uwch arweinwyr wedi rheoli cyllideb ariannol â diffyg ac wedi creu ychydig o warged. Mae ailstrwythuro mawr ymhlith y staff wedi arwain at rolau wedi'u haildiffinio i reolwyr ar bob lefel a ffocws craffach ar wella sawl agwedd ar y coleg, er enghraifft gosod targedau heriol i wella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu cymwysterau arnynt. Mae gan reolwyr a staff ar bob lefel gyfrifoldebau clir ac maent yn fwy atebol am wella safonau dysgwyr.

Mae cyfathrebu ar draws y coleg yn dda. Mae uwch reolwyr yn rhoi gwybodaeth dda i staff am ddatblygiadau strategol a gweithredol ac mae cyfathrebu clir wedi bod yn effeithiol ar adeg o her sylweddol i'r coleg. Mae staff ar bob lefel yn cael amrywiaeth eang o wybodaeth ac yn mynychu cyfarfodydd diweddarau rheolaidd gyda'r pennaeth ac uwch reolwyr. Mae hyn yn helpu i gynnwys staff ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar waith tîm.

Mae rheolwyr canol, y mae nifer ohonynt newydd ddechrau yn eu rolau newydd, wedi dechrau cydweithio'n adeiladol i roi nodau strategol allweddol y coleg ar waith. Mae'r

rheolwyr hyn wedi diwygio rolau arweinyddiaeth a thargedau perfformiad sydd â'r nod o wreiddio diwylliant y coleg a gwella cyfraddau llwyddiant. Dangosant ddealltwriaeth dda o sut mae eu meysydd cyfrifoldeb yn perfformio a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae'r tîm yn gweithio'n dda i ddatblygu'r meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt ac i herio a chefnogi eu staff i wella'u perfformiad.

## **6 Arweinyddiaeth a rheolaeth (sicrhau ansawdd)**

Mae'r coleg wedi datblygu ei weithdrefnau sicrhau ansawdd i fodloni ei nodau presennol yn fwy effeithiol. Bellach, mae'n defnyddio model seiliedig ar risg sy'n anelu at roi gwell dealltwriaeth i reolwyr a staff o berfformiad cyrsiau. Mae'r model yn casglu amrywiaeth o wybodaeth am ddysgwyr a'u perfformiad tra'u bod nhw yn y coleg. Mae'n galluogi olrhain cynnydd yn gynhwysfawr ac mae'n nodi lle y mae angen ymyrryd yn gynnar er mwyn gallu cynnig cymorth. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y cymorth hwn wedi codi cyfraddau cwblhau. Mae arfarnu cyrsiau a meysydd swyddogaethol wedi'i gryfhau ymhellach trwy raglen adolygiadau a gynhelir fel mater o drefn. Mae gan y gweithdrefnau sicrhau ansawdd hyn ffocws cliriach ar wella cyrhaeddiad a gwella ansawdd addysgu ac asesu.

Mae Deoniaid, rheolwyr meysydd y cwricwlwm ac arweinwyr adran yn dangos dealltwriaeth dda o'u cryfderau a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i sicrhau gwelliant yn eu dysgu neu eu maes cymorth. Caiff data ei ddefnyddio'n fwy cyson gan reolwyr a staff i fonitro perfformiad yn erbyn targedau. Mae'r coleg wedi datblygu cynlluniau a strategaethau priodol ar gyfer gwella ar draws holl ganghennau allweddol ei waith.

## **7 Crynodeb o gynnydd o ran yr argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad arolygu Ebrill 2009**

At ei gilydd, mae'r coleg wedi mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad diwethaf. Ers adeg yr arolygiad, bu heriau a newidiadau arwyddocaol yn y coleg, gan gynnwys y diffyg yn y gyllideb a'r ailstrwythuro sefydliadol.

## **8 Arall**

### **Partneriaethau**

Mae gan y coleg bartneriaeth hirsefydledig gydag ysgolion yn yr awdurdod lleol ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygiad parhaus y ddarpariaeth 14-19 oed.

Dros nifer o flynyddoedd, mae'r coleg wedi sefydlu ac ehangu ei ddarpariaeth 'gyda'r hwyr' ar gyfer cyrsiau Safon Uwch a chysiau Lefel 3 eraill i ddisgyblion ysgol sy'n dymuno dilyn cymwysterau arbenigol. Ar hyn o bryd, mae 190 o ddisgyblion yn cymryd rhan yn y rhaglenni hyn, gyda darpariaeth gyfyngedig yn cael ei chyflwyno yn ystod y dydd i ateb y galw. Mae'r coleg hefyd yn gweithio gyda'r sector cyfrwng Cymraeg i gyflwyno rhaglenni galwedigaethol i ddisgyblion 14-16 ac 16-19 oed trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r coleg wedi cynnal ac ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y cyfryngau rhyngweithiol yn ei Ganolfan Sgiliau Stiwdio 34, sy'n canolbwyntio ar gyflwyno rhaglenni i ddisgyblion Blwyddyn 12 sydd mewn perygl o ymddieithrio. Yn

gyfan gwbl, mae dros 600 o ddisgyblion ysgol yn mynychu'r coleg i ddilyn amrywiol gyrsiau.

Mae'r coleg yn un o ddarparwyr mwyaf addysg uwch yn y sector ac, ar hyn o bryd, mae dros 1,000 o ddysgwyr yn dilyn rhaglenni addysg uwch. Mae cyfleoedd da am ddilyniant ar gael ym mhob maes sector pwnc. Yn y flwyddyn bresennol, mae'r coleg wedi sefydlu llwybr addysg uwch newydd gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Hefyd, y coleg yw'r prif ddarparwr ar gyfer y bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOG) yn yr ardal ac mae'n cyflogi'r Rheolwr Partneriaeth DOG, gyda'r pennaeth yn cadeirio'r Bwrdd Strategol DOG.

Mae gan y coleg gysylltiadau hirsefydledig a mwy diweddar gyda busnes a diwydiant yn lleol ac mae wedi darparu rhaglenni hyfforddi ar gyfer diwydiannau mawr a chwmnïau bach a chanolig. Mae'r coleg wedi sefydlu Strategaeth Ymgysylltu â Chyflogwyr sy'n fanwl ac sy'n nodi amcanion allweddol ar gyfer 2014 i 2015.

## **Y Gymraeg**

Mae'r coleg yn gweithio'n agos gydag ysgol cyfrwng Cymraeg leol i gyflwyno amrywiaeth o gyrsiau mewn meysydd galwedigaethol o Lefel 1 i Lefel 3 trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhaglenni hyn ar gael mewn cerbydau modur ac iechyd a gofal cymdeithasol, gyda 70 o ddysgwyr yn dilyn y rhaglenni ar hyn o bryd. Ar lefel ôl-16 oed, mae'r coleg yn cyflwyno rhaglen Lefel 3 mewn iechyd a gofal cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae 41 o ddisgyblion yn dilyn y rhaglen hon ar hyn o bryd.

Mae'r coleg hefyd yn darparu amrywiaeth o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Dros y tair blynedd diwethaf, mae wedi cael cydnabyddiaeth am y gwaith y mae'n ei wneud ar y Gymraeg a dwyieithrwydd, er enghraifft trwy enwebiadau a gwobrau Colegau Cymru ar gyfer datblygiad staff a Chymraeg yn y gweithle. Mae'r coleg yn parhau i weithio i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd i bob dysgwr yn llawn.

## **Llais y dysgwr**

Mae'r coleg yn defnyddio amrywiaeth o holiaduron priodol i geisio barn dysgwyr am sut gallant wella'r profiad dysgu yn y coleg. Fe wnaeth 2,211 o ddysgwyr yn y coleg gwblhau arolwg llais y dysgwr yn 2014. Dywed 81% o ymatebwyr fod y coleg yn dda iawn neu'n dda. Mae hyn yn rhoi'r coleg ar y brig ar draws y sector ar gyfer yr ymateb hwn ar adeg o her a newid mawr. Dywed 40% o ymatebwyr fod eu cwrs yn well na'r disgwyl ac mae hyn uwchlaw cyfartaledd y sector. Mae ymatebion i'r pum thema allweddol yn yr arolwg yn dangos bod y coleg wedi cael sgorau uwchlaw'r sector ym mhob un o'r pump. Cafodd y coleg sgôr arbennig o uchel gan ymatebwyr ar gyfer yr help a'r cymorth a gaiff dysgwyr, sef 41%, sydd chwe phwynt canran uwchlaw cyfartaledd y sector.

Mae'r uwch dîm rheoli a'r staff ar bob lefel yn glir ynghylch prif flaenoriaethau'r coleg ar gyfer gwelliant. Mae ganddynt amrywiaeth eang o strategaethau a dogfennau ar waith i ategu'r datblygiadau hyn. Mae arolygwyr yn cydnabod y blaenoriaethau hyn a

bydd eich arolygwyr cyswllt yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol trwy eu rôl gyswllt gyda'r coleg.

### **Argymhellion**

- Parhau i feithrin gallu'r uwch dîm arwain i ymgymryd â'i rôl strategol;
- Sicrhau bod sefydlogrwydd ariannol yn cael ei gynnal;
- Parhau i wella'r gwaith o fonitro systemau data a gweithdrefnau; a
- Gwella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu cymwysterau arnynt ar draws holl feysydd dysgu pynciau.

### **Y camau nesaf**

Bydd Mark Evans AEM a Bernard Hayward AEM yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol trwy eu rôl fel cysylltiadau â'r sefydliad.

Yn gywir

**Lin Howells**  
Cyfarwyddwr Cynorthwyol